Living & Learning
Dysgu i Dyfu

Creeds
Credo

ATHROFA **PADARN** SANT
ST **PADARN'S** INSTITUTE

Cyflwyniad

Credaf...ein bod ni i gyd yn credu mewn gwahanol bethau, o'r powdwr golchi neilltuol a ddewiswn (credwn nad yw byth yn methu gwneud ei waith yn dda) i'r syniad mai paned o de yw'r moddion gorau yn y byd. Mae gennym ni i gyd wahanol bethau rydym ni'n credu ynddynt. Fodd bynnag, dydy credu ddim mor syml a hynny, ac mae llawer o Gristnogion yn credu pethau pendant iawn am Dduw nad yw eraill yn eu credu.

O fewn Cristnogaeth gallwn deimlo braidd yn anesmwyth pan fo rhywun yn anghytuno a ni dros elfennau allweddol ein ffydd sy'n adlewyrchu'r hyn a gredwn. Yn ystod y cwrs hwn byddwn yn edrych ar ddatganiadau o'n ffydd. Byddwn yn edrych ar y geiriau sydd i bob pwrpas yn brawf diamheuol o'r hyn y mae pobl mewn gwirionedd yn ei gredu am Dduw. Ystyriwn gefndir y datganiadau o ffydd sy'n cael eu hadnabod fel credoau. Efallai y bydd y cwrs hwn yn gwneud i chi feddwl am yr hyn rydych chi'n ei gredu a pham, a'r gobaith yw y bydd yn gymorth i ddyfnhau'r hyn rydych yn credu sy'n wir. Ac nid yn unig hynny, mae'r cwrs hwn yn gobeithio cysylltu'r credoau hyn a'n bywydau - a hyd yn oed sut y siaradwn am Dduw - a dangos pam ei fod yn bwysig fod y datganiadau cred hyn gan yr Eglwys Gristnogol yn y lle cyntaf.

Mae'r gair Cred yn dod o'r Lladin, 'credo', sy'n golygu, 'Credaf'. Datganiad yw credo sy'n dweud eich bod yn credu rhywbeth. Mae'r gred hwnnw mewn rhywbeth dilys, rhywbeth sylweddol, rhywbeth nad ydych yn ei amau.

Mae'n cred yn seiliedig ar ffydd - "Mae gen i ffydd yn Nuw oherwydd credaf Ei fod yn bodoli go iawn." Felly, pan adroddwn gredo rydym yn adlewyrchu'r hyn a gredwn, a'n ffydd. Mae gennym ffydd fod Duw yn dda oherwydd i ni ddarllen hynny a gwyddom ei fod yn wir ac felly credwn fod Duw yn dda. Yn ein credoau, mae'r rhai enwocaf yn dechrau, "Credwn mewn Un Duw." Yn ami bydd 'Credwn' yn cael ei ddarllen fel 'Credaf', ac mae'n bosib fod rhai pobl yn gofyn pam, gan mai eu cred bersonol yw hon, y dylent ddweud, 'Credwn'. Y rheswm dros y lluosog/Credwn', yw mai fel datganiad o gred yr Eglwys gyfan y bwriadwyd y credoau ac nid datganiad o ffydd a chred unigolyn.

Mae'r diwinydd Marcus Borg' yn dadlau bod y syniad o ddweud 'Credwn' yn tarddu o'r Lladin, 'y syniad o roi eich calon i rywbeth'. Mae hyn yn dangos fod geiriau ein credoau a'r hyn a gredwn yn bethau y rhoddwn ein hunain yn gyfan gwbl iddynt. Dywedwn 'Credwn' oherwydd ein bod yn rhoi ein calonnau'n gyfan gwbl i hyn. Nid geiriau'n unig yw'r hyn a ddywedwn, hwy yw'r hyn a gredwn, a chredwn i'r fath raddau fel ein bod yn rhoi ein holl galon a'r cwbl ohonom y tu ôl i'r geiriau.

Pwynt arall ynglyn a chredoau'r Eglwys yw eu bod yn uno'r Eglwys yn nhermau'r hyn mae'n ei gredu. Mae'r credoau'n gosod y ffiniau y mae gwir gred a bywyd ffrwythlon yn digwydd o'u mewn. Mae Cyngor Eglwysi'r Byd, yn yr ystyr eang iawn, yn cydnabod y ffiniau hyn pan mae'n diffinio'u cymdeithas fel:

a fellowship of churches which confess the Lord Jesus Christ as God and Saviour according to the scriptures, and therefore seek to fulfill together their common calling to the glory of the one God, Father, Son and Holy Spirit[ii].

O rhan yr hanes ar sut y daeth credoau i fodolaeth, bu llawer o ymchwilio ac ymdrechu diwinyddol. O ganlyniad, mae'r credoau wedi datblygu arwyddocad mawr i'r Eglwys. Ein gobaith ni yw y byddwch, erbyn diwedd y cwrs hwn, wedi ,mwynhau gweld y ffyrdd y mae pobl wedi ymgodymu â'u ffydd ond hefyd wedi dod i'r man lle y gallant ddweud yn hyderus "Credwn."

Introduction

I believe... We all have different things that we believe in, from the choice of a certain washing detergent (believing it never fails to do a good job) to a cup of tea always being the best medicine. We all have different things that we believe. However, belief isn't straightforward, and many Christians believe very definite things about God that others don't.

Within Christianity we may feel a little uncomfortable when someone disagrees with us over key elements of our faith which reflect what we believe. In this course we will be looking at statements of our belief. We will look at the words that are almost a litmus test of what people truly believe about God. We will consider the background of the statements of faith known as creeds. This course may make you think about what you believe and why, and it will hopefully aid in deepening what you believe to be true. Not only this, but this course hopes to connect these beliefs with our lives – and even how we talk about God – and to show why it is important to the Christian Church to have these statements of belief in the first place.

The word Creed comes from the Latin, 'credo', which means, 'I believe'. A creed is a statement that says that you believe something. That belief is in something real, something tangible, something that you don't doubt. Faith is something on which our belief is based – "I have faith in God because I believe that He is real." So, when we say a creed we are reflecting our beliefs and our faith. We have faith that God is good because we have read it and we know that it is true and so we believe that God is good. In our creeds, the most well-known ones begin, "We believe in One God." It was often read as, 'I believe' and some people may wonder why, as this is their personal belief, should they say, 'we believe'. The reason for 'we' is that the creeds are intended as a statement of belief for the whole Church and not just one's own faith and belief.

The idea of saying 'we believe', the theologian Marcus Borg[i] argues, has as its root in the Latin 'the idea of giving our heart to'. This shows that the words of the creeds and our beliefs are something to which we give our whole selves to. We say that 'we believe' because we are giving our whole hearts to this. These are not just words we say, they are what we believe, and our belief is to such an extent that we are putting our whole heart and our whole selves behind the words.

Another point about the creeds of the Church is that they unify the Church in terms of identifying what it believes. The creeds set the parameters within which true belief and fruitful living take place. The World Council of Churches recognises these parameters, in a very broad sense, when it defines their community as:

a fellowship of churches which confess the Lord Jesus Christ as God and Saviour according to the scriptures, and therefore seek to fulfill together their common calling to the glory of the one God, Father, Son and Holy Spirit[ii].

In the history of how the creeds came about, there has been much theological searching and struggle. As a result, the creeds have taken on an immense significance for the church. Our hope is that, by the end of this course, you will have enjoyed seeing the ways that people have both struggled with their faith and have come to the conclusion where they can say with confidence: "We believe."

Sesiwn 1

Pwy meddwch chwi ydwyf fi?

Cyn y Sesiwn

1. Darllenwch y Cyflwyniad i'r cwrs a'r Cyflwyniad i'r sesiwn.
2. Edrychwch ar Mathew 16:13-16 a meddyliwch am yr hyn mae'n dweud am gred

Session 1

Who do you say I am?

Before the Session

1. Read the Introduction to the course and the Introduction to the session.
2. Look at Matthew 16:13-16 and consider what it says about belief.

Daeth Iesu i barthau Cesarea Philipi, a holodd ei ddisgyblion, "Pwy y mae pobl yn dweud yw Mab y Dyn?" Dywedasant hwythau, "Mae rhai'n dweud Ioan Fedyddiwr, ac eraill Elias, ac eraill drachefn, Jeremeia neu un o'r proffwydi." "A chwithau," meddai wrthynt, "pwy meddwch chwi ydwyf fi?" Atebodd Simon Pedr, "Ti yw'r Meseia, Mab y Duw byw.[iii]" (Mathew 16:13-16)

Allwch chi ddychmygu'r foment hon? Roedd y disgyblion wedi gadael popeth i ddilyn Iesu, byddai llawer o bosib yn ystyried eu penderfyniad i adael popeth ar ôl a dilyn y bachgen lleol hwn a oedd wedi troi'n bregethwr ac yn achosi tipyn o gyffro, yn benderfyniad gwbl ffôl. Roeddent wedi dilyn. Roeddent wedi gweld Iesu'n gwneud pethau rhyfeddol. Roeddent wedi ei weld yn iacháu pobl, roeddent wedi ei weld yn dod yn amhoblogaidd gan yr arweinwyr a'r henuriaid crefyddol. Roeddent wedi ei weld yn porthi'r 5000 â 5 torth a 2 bysgodyn (Mathew 14:13-21) ac yn awr roeddent mewn cyfyng-gyngor. Gofynnodd Iesu iddynt, "Pwy y mae pobl yn dweud ydwyf fi?"

Mae'n bosib y bod hyn wedi bod yn annodd, yn anodd, wedi'r cwbl efallai fod rhai pobl yn cyfeirio at Iesu fel rhywun hollol wallgof, fel twyllwr efallai, rhywun na ellid ymddiried ynddo, terfysgwr neu rywun na allent ei ddeall yn iawn. Er hynny, roedd y disgyblion hefyd clywed rhywfaint o newyddion da. Roeddent wedi clywed pobl yn cyfeirio at Iesu fel un o'r proffwydi mawr megis Eleias neu Jeremeia. Roeddent wedi clywed cyfeirio at Iesu fel Ioan Fedyddiwr.

Roedd pob un o'r bobl a enwyd wedi bod yn broffwyd mawr. Roedd y syniad mai un o'r proffwydi hyn oedd Iesu yn golygu ei fod yn un o'r rhain wedi dod yn ôl yn fyw. Roedd yn glir fod y bobl, pwy bynnag roeddent yn feddwl oedd Iesu, yn meddwl Ei fod yn rhywun arbennig.

Roedd y proffwydi mawr yn cael eu parchu a'u mawrygu. Wedi i'r Israeliaid gael eu caethgludo - cawn yr hanes yn yr Hen Destament[iv] - rhoddwyd parch mawr i'r proffwydi oherwydd gwelid hwy fel pobl oedd wedi ceisio troi'r genedl yn ôl at Dduw a'r cyfamod gwreiddiol a oedd wedi ei gadarnhau i Moses ar Fynydd Sinai[v], â'r Deg Gorchymyn. Roedd y gorchmynion hyn yn cynnig canllaw ar gyfer byw yn nes at Dduw.

Wrth ddweud mai Ioan Fedyddiwr oedd Iesu, roedd pobl yn cymharu Iesu a rhywun oedd yn cael ei weld fel bygythiad i gymdeithas, yn nhermau'r ffaith ei fod yn cael ei gyfrif yn rebel oedd yn mynd yn erbyn pethau arferol cymdeithas, ac ar yr un pryd yn rhywun gwerth ei ddilyn am ei fod yn troi pobl yn ôl at Dduw. Ar yr un pryd wrth gymharu Iesu ag un o'r proffwydi mawr roeddent yn uniaethu Iesu a phobl oedd wedi annog eraill i droi'n ôl at eu ffydd neu droi at ffydd am y tro cyntaf.

Ar unrhyw lefel roedd Iesu'n cael ei ystyried fel un oedd yn troi pobl yn ôl at Dduw. Yn sicr, dyna oedd wedi ennyn diddordeb y disgyblion yn y lle cyntaf. Roedd athrawon yn cael eu dilyn gan bobl oedd yn ceisio dysgu mwy am Dduw ac roedd ganddynt, gan amlaf, garisma oedd yn argyhoeddi pobl. Roedd y disgyblion yn dilyn Iesu am eu bod yn credu ei fod yn arbennig. Roeddent wedi ei weld yn gwneud gwyrthiau, roeddent wedi ei glywed yn pregethu, ac erbyn hyn mae'n siŵr gen i eu bod yn argyhoeddedig fod Iesu'n fwy nag athro cyffredin.

Mae'r Testament Newydd yn dangos yn eglur fod Iesu'n cael ei ystyried yn arbennig. Pan ddarllenwn efengyl Ioan, un o'r pethau cyntaf a ddarllenwn yw bod Iesu yn Dduw. Yn Ioan 1:1 darllenwn,

Yn y dechreuad yr oedd y Gair, yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair.

Tua diwedd efengyl Ioan, pan wnaeth Thomas, un o'r disgyblion, adnabod Iesu ar ôl yr atgyfodiad, mae'n ymateb trwy ddweud,

Fy Arglwydd a'm Duw
(20:28)

Now when Jesus came into the district of Caesarea Philippi, he asked his disciples, "Who do people say that the Son of Man is?" And they said, "Some say John the Baptist, but others Elijah, and still others Jeremiah or one of the prophets." He said to them, "But who do you say that I am?" Simon Peter answered, "You are the Messiah, the Son of the living God.[iii]" (Matthew 16:13-16)

Can you imagine this moment? The disciples had left everything to follow Jesus, they would probably have been seen as having made a very stupid decision in leaving everything behind to follow this local-boy-turned-preacher, who had been making quite a stir. They had followed. They had seen Jesus do some amazing things. They had seen Him heal people, they had seen Him become quite unpopular with the religious leaders and elders. They had seen Him feed 5000 people out of 5 loaves and 2 fish (Matt 14:13-21) and now they had been put on the spot. Jesus asked them, "Who do people say that I am?"

This may have been difficult, after all some people may have been referring to Jesus as being completely mad, maybe a charlatan, totally untrustworthy, a trouble maker or someone that they couldn't quite understand. The disciples had heard some good news as well though. They had heard people refer to Jesus as one of the great prophets like Elijah or Jeremiah. They had heard of Jesus referred to as John the Baptist.

All the people named had been great prophets. The idea of Jesus being one of these prophets meant that He would have been one of these brought back to life. It was clear that whoever people thought Jesus was, they thought that He was someone special.

The great prophets were respected and revered. After the exile of the Israelites which we read of in the Old Testament[iv] the prophets were given huge respect in as much as they were seen as people who had tried to turn the nation back to God and their original covenant which had been put into place at Mount Sinai[v] with Moses and the 10 Commandments. These commandments had offered a guide for living closer to God.

By people saying that Jesus was John the Baptist, they were comparing Jesus to someone who had been seen as both a threat to society, in terms of him being a maverick type of character who went against the norms of society, and at the same time someone worth following because he was turning people back to God. At the same time by comparing Jesus to one of the great prophets they were equating Jesus with people who had encouraged others to turn back to their faith or to turn to faith for the first time.

On any level Jesus was being viewed as one who was turning people back to God. Certainly, this is what had interested the disciples in the first place. Teachers would be followed by people trying to learn more about God and they usually had some type of charisma that convinced people. The disciples followed Jesus because they thought He was special. They had seen Him perform miracles, they had heard Him teach and by this stage I suspect that they were convinced that Jesus was more than an ordinary teacher.

The New Testament shows clearly that Jesus was viewed as special. When we read the gospel of John one of the first things we read is that Jesus was God. In John 1:1 we read,

In the beginning was the Word, and the Word was with God, and the Word was with God.

Towards the end of the gospel of John when Thomas, one of the disciples, recognises Jesus after the resurrection, he responds by saying,

My Lord and my God
(20:28)

Dyma gyffesion ffydd sy'n amlwg yn uniaethu Iesu â Duw. Yn yr efengylau rydym hefyd yn gweld Iesu'n gweithredu yn yr un ffordd ag y gwna Duw. Pan faddeuodd Iesu i ddyn wedi'i barlysu yn efengyl Marc (2:7) codwyd cwestiwn ynglŷn â'i hawl,

Pwy ond Duw yn unig all faddau pechodau?

Yn efengyl Marc, pan dawelodd Iesu'r storm roedd y bobl wedi'u synnu a chodwyd cwestiwn arall,

Pwy ynteu yw hwn? Y mae hyd yn oed y gwynt a'r môr yn ufuddhau iddo. (4:41)

Gwelir Iesu yn y Testament Newydd trwy ei weithredoedd a'i eiriau. Mae hyn yn golygu bod y cwbl roedd y disgyblion wed ei weld a'i glywed am Iesu o reidrwydd yn gwibio o gwmpas yn eu meddyliau. Mae'n golygu y gallai'r disgyblion, pan ofynnodd Iesu pwy oedd pobl yn dweud oedd ef, dynnu ar y geiriau roeddent wedi'i glywed yn eu dweud a hefyd ar y geiriau roedd eraill yn eu dweud am Iesu. Roedd hyn yn gwneud ateb cwestiwn Iesu yn gymharol gysurus.

Yn aml mae'n haws cuddio y tu ôl i'r hyn mae pobl eraill yn ei ddweud. Gallwn i gyd sefyll i fyny dros yr hyn mae'r Eglwys yn ei ddysgu. Gallwn i gyd ddweud mai dyma beth mae'r Eglwys yn ei gredu ar sail y credoau. Daw'r anhawster pan fo'n rhaid i ni ddweud hyn drosom ein hunain.

Dyna beth ddigwyddodd i'r disgyblion, gofynnodd Iesu gwestiwn uniongyrchol pan holodd,

Pwy meddwch chwi ydwyf fi?

Os gofynnwch i bobl ddewis hoff ddisgybl, yr ateb yn aml fydd Pedr. Rwy'n amau mai oherwydd bod Pedr yn gwbl ddiwyro ei farn y mae hyn. Roedd Pedr yn neidio i mewn i ganol sefyllfaoedd a dyna'n sicr a wnaeth pan ofynnodd Iesu i'r disgyblion pwy roeddent yn credu oedd ef. Gallwch ddychmygu'r disgyblion eraill o bosib yn ystyried sut i fynegi'u hateb, ond mae Pedr yn neidio'n syth i mewn, ac yn datgan,

Ti yw'r Meseia, Mab y Duw byw.

Roedd y teitl hwn yn llawer mwy na'r un roedd y disgyblion wedi ei glywed gan bobl eraill. Roedd y teitl 'Meseia' yn mynd y tu hwnt i Ioan Fedyddiwr neu un o'r proffwydi mawr oedd yn troi pobl yn ôl at Dduw. Wrth ddweud mai Iesu oedd y Meseia, roedd Pedr yn dweud mai ef oedd eneiniog Duw - yr un etholedig.

Ers cyfnod yr Hen Destament roedd gobaith am 'un mawr' gan gredinwyr Iddewig, un wedi'i eneinio a oedd yn cael ei adnabod yn yr Hebraeg fel 'Meseia' fyddai'n rheoli ei bobl i'r un lefel â'u Brenin mwyaf erioed, sef Dafydd. Roedd Duw wedi addo i Dafydd[vi] y byddai'r un a oedd wedi ei eneinio, yr un a fyddai'n gwaredu Israel yn dod o'i linach ef. Roedd y gobaith hwn wedi dod yn rhan o hunaniaeth a chred yr Iddewon, gobaith fod y Meseia ar ei ffordd. Roedd pobl yn disgwyl am Feseia, un oedd wedi'i eneinio gan Dduw, a fyddai'n gwaredu y bobl.

Os symudwn ymlaen i gyfnod Iesu, yna fe welwn bobl a oedd wedi'u goresgyn gan Rufain ac yn dyheu am gael eu gwaredu a'u rhyddhau o lywodraeth estron. Yn y sefyllfa hon roedd y gobaith am eneiniog Duw, y Meseia, wedi datblygu'n obaith angerddol am waredwr fyddai'n concro'r Rhufeiniaid ac yn dychwelyd Israel i'w safle o rym.

Dyma'r hyn mae Pedr yn ei olygu. Roedd y bobl yn gobeithio ac yn disgwyl, a gwnaeth Pedr ddatganiad o ffydd mai Iesu, iddo ef, oedd y Meseia, ac ynddo ef gorffwysai holl obaith Israel.

These are confessions of faith that clearly equate Jesus with God. In the gospels we also hear of Jesus acting in the way that God does. When Jesus forgave a paralysed man in the gospel of Mark (2:7) a question was raised as to,

Who but God alone can forgive sins

In the gospel of Mark when Jesus stilled the storm people were amazed and another question was raised,

Who then is this, that even the wind and the sea obey him? (4:41)

Jesus is seen in the New Testament through His actions and words. This means that all the disciples had seen and heard about Jesus must have been running around in their minds. This means that when Jesus asked who people said that He was, the disciples could draw on what they had seen of Jesus, they could draw on the words that they heard Him say and they could also draw on the words other were saying about Jesus. This gave them their answer to Jesus' question relatively comfortably.

It often is easier to hide behind what other people say. We can all stand up for what the Church teaches. We can all say this is what the Church believes on the basis of the creeds. The difficulty comes when we have to say this for ourselves.

This was what happened to the disciples, Jesus asked them a direct question when He said,

But who do you say that I am?

If you ask people to pick a favourite disciple, the answer will often be Peter. I suspect this is because Peter was very straight with his views. Peter jumped right into situations and this is certainly what he did when Jesus asked who the disciples thought that He was. You can almost imagine the other disciples potentially pondering over how to express their answer, but Peter jumps right in. Peter announced,

You are the Messiah, the Son of the Living God.

This title was much greater than one that the disciples had heard from other people. The title, 'Messiah' went beyond being John the Baptist or one of the great prophets who turned people back to God. By saying that Jesus was the Messiah, Peter was saying that He was God's anointed one - the chosen one.

Since Old Testament times there had been a hope of a 'great one' for Jewish believers, an anointed one known in Hebrew as 'Messiah' who would rule people to the same level as their greatest King ever who was David. God had promised David[vi] that someone who would be the anointed one, the one who rescued Israel would come from his line. This hope became part of the identity and belief of the Jewish people, a hope that the Messiah was on His way. People were waiting for a Messiah, one who would be anointed by God, who would save the people.

If we skip forward to the time of Jesus, then we see a people who were under Roman occupation desperate to be released and liberated from a foreign government. Into this the hope for God's anointed one, the Messiah, had grown into a passionate hope of a liberator who would overthrow the Romans and restore Israel to her position of power.

This is what Peter was meaning. The people were hoping and waiting, and Peter made a statement of faith that for him Jesus was the Messiah, the one in whom all the hope of Israel rested.

Pe baem yn edrych ar y byd o'n cwmpas byddem yn gweld pobl sy'n dyheu am ryw fath o waredwr, rhywun a fyddai'n eu rhyddhau o galedi ariannol, caledi digartrefedd, tlodi enbyd, cyfundrefnau anghyfiawn. Byddai'r syniad am Feseia, Gwaredwr, yn syfrdanol. Mae'r Eglwys Gristnogol yn credu, fel Pedr, mai Iesu yw'r Prynwr a'r Gwaredwr hwnnw.

Mae hyn yn arwain at gwestiwn am ein cred. Pe bai Iesu'n dychwelyd heddiw lle y byddai'n dechrau ar y gwaith o newid pethau?

Gwnaeth Pedr ddatganiad anhygoel. Nid yw mewn gwirionedd yn gredo e.e datganiad o gred sy'n ffurfiedig ac yn cael ei adrodd ond mae'n ddechrau diddorol i'n harchwiliad o gredoau. Cred yn Nuw a gychwynnodd yr Eglwys. Cred yn y Drindod Fendigaid sydd wedi uno pobl i fod yn Eglwys. Mae'r cwbl yn dechrau gyda chwestiwn syml:

Pwy meddwch chwi ydwyf fi?

If we were to look at the world around us we would see people who would be desperate for some type of redeemer, for someone who could release them from financial hardships, the hardships of homelessness, extreme poverty, unjust regimes. The idea of a Messiah, a Saviour, would be amazing. The Christian Church believes, like Peter, that Jesus is that redeemer and Saviour.

This leads us to a question about our belief. If Jesus came back today where would He start to change things?

Peter made an incredible statement. It is not seen as a creed really i.e a statement of belief that is formed and recited but it is an interesting beginning in an exploration of creeds. It is the belief in God that started the Church. It is the belief in the Holy Trinity that has united people to be the Church. It all begins with a simple question:

Who do you say that I am?

I'r Sesiwn Hwn

Cyrraedd ac Addoli

1. Addoli gyda'ch gilydd.

Prosiect 1

1. Pe baech yn gorfod ysgrifennu pedwar datganiad sy'n adlewyrchu'ch cred yn Nuw, beth fyddent?
2. Mewn grwpiau, gweithiwch allan bedwar enw am Dduw a meddyliwch sut mae'r enwau hyn yn adlewyrchu'ch cred yn Nuw a sut byddech yn disgrifio'r gred honno.

Prosiect 2

1. Ysgrifennwch gredo ar gyfer yr hyn mae'ch cymdeithas yn ei gredu y tu mewn a'r tu allan i'r Eglwys.
2. Sawl un o'r credoau hyn allwch chi eu cefnogi?

For this Session

Arrive and Worship

1. Worship together.

Project 1

1. If you had to write down four statements that reflected your belief in God, what would they be?
2. In groups, work out four names for God and think about how these names reflect your belief in God and how you would describe that belief.

Project 2

1. Write a creed for the beliefs of your community both within and without the Church.
2. How many of these beliefs can you get behind?